Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llanilar**
**Llanilar**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 4PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanilar yn gwasanaethu’r pentref a’r ardal gyfagos.  Ar hyn o bryd, mae 114 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr.  Mae pum dosbarth yn yr ysgol gyda phedwar o oedrannau cymysg.

Tua 4% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is o lawer na’r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae tua 15% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy’n is na’r ffigwr cenedlaethol.  Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw tua 25% o ddisgyblion o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn brif iaith.  Cymraeg yw cyfrwng addysgu a dysgu ar draws yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.  Ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2010.  Cafodd y pennaeth ei benodi i’r swydd yn Mai 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanilar yn 2016-2017 yw £3,210.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,440 a'r lleiafswm yw £3,123.  Mae Ysgol Gynradd Llanilar yn safle 44 o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda dros amser
- bron pob disgybl yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad mewn gwersi
- rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da
- bron bob un disgybl sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd pwrpasol yn unol â'u gallu
- ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda
- ansawdd yr addysgu yn dda ym mhob dosbarth
- yr ysgol yn gymuned hynod o ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n hollol ddiogel

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer gwella'r ysgol
- aelodau'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn llwyddiannus iawn ac mae eu rôl yn y broses o fonitro a sicrhau ansawdd yn effeithiol
- y pennaeth a'r staff yn gweithio'n dda fel tîm
- gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o safonau a sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg
- diwylliant o hunanarfarnu wedi gwreiddio'n dda ym mywyd yr ysgol
- y ddogfen hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys ac onest o'r ddarpariaeth ac yn adnabod agweddau priodol i'w datblygu
- cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau ac ehangu'r ddarpariaeth
- ystod o bartneriaethau gwerthfawr iawn yn bodoli sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a chefnogi lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella safonau sillafu Saesneg y disgyblion

A2 Codi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cryfhau'r her a'r sialens i'r disgyblion mwyaf galluog

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf o ddisgyblion fedrau sydd yn is na'r disgwyl am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda dros amser. Mae bron pob disgybl yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad mewn gwersi. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n ddiwyd ac yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau priodol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar eu cyfoedion. Maent yn awyddus iawn i gyfrannu ar lafar mewn trafodaethau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru sgwrsio'n glir gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn naturiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn meddu ar eirfa eang ac yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddiddordeb amlwg mewn llyfrau. Maent yn dewis llyfrau yn annibynnol ac yn defnyddio ystod o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer yn trafod eu llyfrau yn synhwyrol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gywir gyda dealltwriaeth briodol. Maent yn trafod y cymeriadau a digwyddiadau yn llwyddiannus ac yn ateb cwestiynau ynglŷn â chynnwys llyfrau yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn addas yn y ddwy iaith wrth gywain gwybodaeth benodol o destun.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn dda yn y Gymraeg. Maent yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio atalnodau yn hyderus wrth ysgrifennu ffurfiau amrywiol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu am ddail yr hydref. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig mewn amryw o arddulliau yn effeithiol yn y ddwy iaith. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar baragraffu ac atalnodi. Fodd bynnag, nid yw safonau sillafu lleiafrif o ddisgyblion yn y Saesneg bob amser yn ddigon cadarn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno gwaith yn daclus ac yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael da ar fathemateg y pen ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn darganfod faint o arian sydd ei angen i brynu nwyddau mewn siop. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau gwahanol ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Gallant gasglu, cofnodi a chyflwyno data yn effeithiol i greu siartiau ac arddangos mesuriadau gwrthrychau gwahanol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif. Maent yn barod iawn i gynnig atebion a rhannu eu canfyddiadau, gan ddefnyddio termau mathemategol cywir. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rannu, lluosi, mesur, talgrynnu ac amcangyfrif yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer o ddisgyblion yn medru casglu a chynrychioli data yn gywir; er enghraifft, maent yn cyfrifo cost ymweld ag atyniadau twristaidd ym Mharis. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn cynhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn digon o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws y cwricwlwm. Maent yn gallu cyfuno llun a thestun a defnyddio meddalwedd arlunio'n llwyddiannus i gyflwyno eu syniadau a'u darluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfrifiadurol yn briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, gall lawer gyfuno testun a graffiau a chreu fideos ac animeiddiadau diddorol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni ac nid ydynt yn cynhyrchu ac yn defnyddio cronfeydd data'n llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhannu gwybodaeth yn ddiogel â phobl eraill ac yn deall pwysigrwydd peidio â datgelu manylion personol i bobl ddieithr. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn briodol, gan gynnwys cyfrifiaduron llechen a pheiriannau ar ddesg.

Yn aml dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw'r tueddiadau ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg nac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros yr un cyfnod wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, yn gyffredinol, mae'r perfformiad wedi bod yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae bron pob un disgybl sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd pwrpasol yn unol â'u gallu.

**Lles: Da**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn gyfforddus i droi at unrhyw aelod o staff am gymorth neu at ddisgyblion hŷn amser chwarae pan fo angen. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cadw'n iach a bwyta'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cadw'n heini yn rheolaidd drwy amryw o weithgareddau allgyrsiol, fel nofio a chlybiau chwaraeon.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn arbennig o dda. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch mawr tuag at oedolion a disgyblion eraill. Mae bron pob disgybl yn serchus ac yn barod i siarad gyda chyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau ac yn dangos lefel dda iawn o ddyfalbarhad yn y gwersi. Mae gallu llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n dda.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae llawer o ddisgyblion yn barod iawn i gymryd cyfrifoldeb a chynnig syniadau am faterion sy'n ymwneud â'r ysgol. Enghraifft dda yw'r awgrym i newid trefn parcio ceir ar ddechrau a diwedd y dydd ac mae hyn wedi cryfhau diogelwch tu allan i'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac mae eu penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn rhedeg siop ffrwythau'n llwyddiannus ac yn defnyddio'r elw i brynu offer ar gyfer amser chwarae.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol. Trwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau, fel sioe a charnifal y pentref, cyngherddau a gweithgareddau lleol, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal. Er enghraifft, maent yn cefnogi'r ymdrechion i dacluso o gwmpas y pentref ac mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau cynhwysfawr a diddorol sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac addysg grefyddol yn llawn. Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys yr Urdd, clybiau mabolgampau, a chlwb côd TGCh, yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu i ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno'r medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd o fewn y gwersi. Mae'r cynllun gwaith TGCh, sydd yn gymharol newydd, yn cael ei ymgorffori'n briodol yn y profiadau mae'r disgyblion yn eu derbyn.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cadarn sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddatblygu ymagweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae cyfleoedd buddiol i'r disgyblion astudio hanes lleol, beirdd Cymru, chwedlau a Chymry enwog. Mae ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb, fel y Llyfrgell Genedlaethol, Castell Henllys a Glan-llyn, yn helpu disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Trwy ystod o weithgareddau cyfoethog, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn cydweithio gyda disgyblion i sicrhau bod yr ysgol yn ailgylchu gymaint â phosibl ac yn arbed ynni a dŵr. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am rannau eraill o'r byd, er enghraifft trwy hybu gweithgareddau masnach deg a dysgu am bobl mewn gwledydd fel Lesotho.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ym mhob dosbarth. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio'n drylwyr, yn rhannu amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn gyson yn ystod y gwersi.

Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol ac yn modelu iaith yn effeithiol iawn. Mae cyflymdra'r gwersi yn dda ac mae'r athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Maent yn sefydlu perthynas waith lwyddiannus gyda disgyblion ac oedolion eraill sy'n cynorthwyo yn y gwersi. Mae'r staff cynorthwyol yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd yr addysgu.

Fodd bynnag, yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae gorgyfarwyddo yn cyfyngu gallu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd digon da.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Gwna athrawon ddefnydd da o ystod o strategaethau asesu ac maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn eu hannog i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i'r sylwadau. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ynghyd â lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Caiff iechyd a ffitrwydd eu datblygu'n dda trwy amryw o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn â nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni. Er enghraifft, cynhelir diwrnod 999 yn rheolaidd i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion i ddysgu am waith a chyfraniadau'r gwasanaethau brys.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da.  Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn darparu cymorth effeithiol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson.  Mae'r staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni a'r disgyblion pan gânt eu hadolygu.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos cartrefol yn nodwedd arbennig o gryf yn yr ysgol.  Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel iawn.  Mae pwyslais cadarn ar sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl a dangos parch a chwrteisi at bawb.  Mae'r ysgol yn darparu trefniadau da ar gyfer mynediad i ddisgyblion ag anableddau.  Mae cydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol drwy weithgareddau amrywiol, er enghraifft astudio gwledydd a chrefyddau eraill.

Mae ystod o offer ac adnoddau da yn yr ysgol, gan gynnwys cyfarpar ar gyfer TGCh.  Mae'r arddangosfeydd deniadol yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu lliwgar ac yn dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion yn effeithiol.  Mae'r hysbysfyrddau sy'n clodfori 'gwaith gwych' disgyblion yn y dosbarthiadau yn esiamplau da.

Mae defnydd pwrpasol yn cael ei wneud o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer dysgu a chwarae.  Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynorthwyo'r staff i fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a chyfoethogi profiadau'r disgyblion.  Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.  Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer gwella'r ysgol.  Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gwybodaeth dda am y safonau addysgu a dysgu.  Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn ei gefnogi yn llwyddiannus iawn ac mae eu rôl yn y broses o fonitro a sicrhau ansawdd yn effeithiol.  Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau addas, fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer safonau Saesneg.

Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio'n dda fel tîm.  Caiff rolau a chyfrifoldebau staff eu diffinio'n glir ac maent yn gweddu'n dda i ofynion yr ysgol.  Mae cyfarfodydd staff a'r uwch dîm rheoli yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau datblygu'r ysgol a chynnydd disgyblion.  Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn dda ac yn rhannu deilliannau'n effeithiol gyda phob aelod o'r staff i sicrhau bod tanberfformiad yn cael ei herio'n gyson.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o safonau a sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae'r llywodraethwyr yn defnyddio ystod o wybodaeth er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella.  Er enghraifft, maent yn arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau ac yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth.  Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i herio'r ysgol ac i ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw manwl i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a darparu ardaloedd dysgu cyffrous y tu allan. Caiff y mentrau hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu a safonau lles disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu wedi gwreiddio'n dda ym mywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn a dadansoddol ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r gweithdrefnau yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro trylwyr, craffu ar lyfrau gwaith y disgyblion, barn reolaidd y rhieni a'r llywodraethwyr ac adolygiadau tymhorol gan asiantaethau addysgol allanol. Defnyddir y wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys ac onest o'r ddarpariaeth ac yn adnabod agweddau priodol i'w datblygu. Mae perthynas addas yn bodoli rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau ac ehangu'r ddarpariaeth. Mae'n cyfeirio'n glir at strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei ddatblygu er mwyn codi safonau. Mae'r cynllun yn cynnwys amserlen gweithredu, cyfrifoldebau staff a manylion cyllidol synhwyrol. Caiff y cynllun datblygu ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r staff ac mae hyn yn sicrhau bod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft wrth wella medrau llythrennedd disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a chefnogi lles y disgyblion. Mae partneriaeth agos iawn rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r cyfathrebu â rhieni trwy wahanol ffyrdd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhieni yn datgan eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle ar ddechrau'r flwyddyn i drafod hunanarfarniad yr ysgol. Mae'r gymdeithas rieni ac athrawon yn weithgar ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r ddarpariaeth trwy brynu adnoddau cyfrifiadurol a llwyfan newydd i'r ysgol. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni.

Mae'r trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin, sydd wedi ei lleoli ar dir yr ysgol, a gyda'r ysgolion uwchradd sy'n derbyn ei disgyblion, yn effeithiol. Mae cynllun trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd yn arbennig o gryf. Mae'r gweithgareddau i sicrhau cyd-ddealltwriaeth ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn fuddiol iawn. Yn ogystal, caiff rhieni gyfleoedd buddiol i fynychu'r cyfarfodydd pontio sy'n bodoli rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae partneriaeth gref gyda'r gymuned leol. Mae gweithgareddau cymunedol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae cysylltiad agos â'r eglwys leol ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fynychu gwasanaethau ac i gael bod yn rhan o wasanaeth fedydd ffug. Mae'r disgyblion yn ymweld yn rheolaidd â chartrefi'r henoed yn y pentref ac yn cynnig adloniant iddynt. Mae aelodau o'r gymuned, fel ffermwyr lleol, yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i esbonio natur eu gwaith ac i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal a'u treftadaeth.

Mae partneriaeth agos gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn gweithio'n rhan amser fel ymgynghorydd her i'r awdurdod addysg ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau arweinyddiaeth athrawon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Trwy ddefnydd effeithiol o arbenigedd staff mewn pynciau fel Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae cyfraniad y staff cynorthwyol yn werthfawr iawn ac maent yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr sy'n cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant addas. Mae'r rhain eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau darllen a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus. Mae rhwydweithiau effeithiol yn bodoli gydag ysgolion eraill sy'n cynnig ystod o gyfleoedd i athrawon a staff cynorthwyol ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae cydweithio agos ag ysgolion eraill i rannu arfer dda, fel datblygu strategaethau i wella medrau darllen disgyblion.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion penodol, er enghraifft trwy ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus.

Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gwariant yn ofalus a thrwyadl.

O ystyried safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672311 - YSGOL GYMUNEDOL LLANILAR**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 119 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 15 | 16 | 9 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 2 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 14 | 9 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 50.0 | 33.3 | 56.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 16 | 9 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 43.8 | 44.4 | 68.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 16 | 9 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 87.5 | 88.9 | 81.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672311 - YSGOL GYMUNEDOL LLANILAR**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 119 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 14 | 17 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 92.9 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 14 | 17 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 92.9 | 88.2 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 71.4 | 57.1 | 47.1 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 14 | 17 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 92.9 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 100.0 | 57.1 | 52.9 | 59.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 14 | 17 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 85.7 | 50.0 | 41.2 | 59.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 14 | 17 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 92.9 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 85.7 | 57.1 | 41.2 | 72.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 59 | 59<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 59 | 58<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 59 | 59<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 59 | 58<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 59 | 57<br>97% | 2<br>3% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 59 | 57<br>97% | 2<br>3% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 59 | 59<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 59 | 59<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 59 | 51<br>86% | 8<br>14% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 59 | 55<br>93% | 4<br>7% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 59 | 55<br>93% | 4<br>7% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 59 | 53<br>90% | 6<br>10% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 62 | 44 | 18 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 63 | 47 | 15 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 75% | 24% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 63 | 47 | 15 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 24% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 63 | 40 | 21 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 62 | 36 | 26 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 63 | 41 | 21 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 65% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 61 | 42 | 18 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 69% | 30% | 2% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 55 | 24 | 30 | 1 | 0 | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 55% | 2% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 62 | 37 | 24 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 39% | 0% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 63 | 34 | 26 | 3 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 54% | 41% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 62 | 44 | 18 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 57 | 28 | 27 | 1 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 49% | 47% | 2% | 2% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 63 | 26<br>41% | 29<br>46% | 8<br>13% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 62 | 42<br>68% | 18<br>29% | 2<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 55 | 22<br>40% | 29<br>53% | 4<br>7% | 0<br>0% | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 61 | 37<br>61% | 22<br>36% | 2<br>3% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 50 | 29<br>58% | 19<br>38% | 2<br>4% | 0<br>0% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 63 | 28<br>44% | 32<br>51% | 3<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 62 | 43<br>69% | 19<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Wyn Davies | Arolygydd Lleyg |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Michael Carruthers | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.